

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Dilys Jones (Nantglyn) yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Llinos Shone. Gweddïwn y bydd Dilys a'r teulu oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn. Cofiw'n am eraill o'n plith sydd wedi colli anwyliaid hefyd a gweddïwn y byddwch chithau'n profi Duw yn agos ac yn gwarchod drosoch.

Anfonwn ein cofion at Menna Lloyd (Groes) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Gweddïwn ei bod yn adnabod gofal Duw yn ei hamgylchynu ac y caiff adferiad iechyd buan iawn. Mae Richard M. Jones (Cefn Berain) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Cyflwynwn yntau yn ein gweddïau gan ofyn i Dduw ei amgylchynu gyda thrugaredd a daioni. Bu i Berwyn Evans (Llansannan) hefyd dreulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gweddïwn y bydd ef hefyd yn parhau i wella, fel eraill o'n plith sydd wedi cael gwahanol driniaethau dros y misoedd diwethaf hyn. Cofion annwyl atoch i gyd.

Dymuniadau gorau i Lois Roberts (Llansannan) a Lewis fydd yn priodi yn Llansannan ddechrau mis Mehefin a bendithion lu iddynt i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Daniel Mars-Jones (Hiraethog) a Sarah ar eu dyweddïad, a ac i Rhys Williams (Hiraethog) a Ceri sydd hefyd wedi dyweddïo. Dymunwn yn dda i'r ddau gwpl, a gweddïwn am fendith Duw ar eu perthynas.

Enwebiadau Medal Gee

Croesewir enwebiadau eto eleni am fedalau o blith yr eglwysi yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid i bob ymgeisydd a enwebir gan ei eglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r Ysgol Sul (mae'r diffiniad o Ysgol Sul hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd/seiadau trafod canol wythnos). Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried eleni fod wedi cyrraedd Y Parchg. Aled Davies, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli LL53 6SH erbyn Mehefin 30ain fan hwyraf. Cliciwch ar y ddolen [Ffurflen Gais Medalau Gee](#) i lawrlwytho ffurflen enwebu, neu cysylltwch â Mair i gael copi papur.

Cyflwynir Medalau Gee (y Gogledd) ar ddydd Sadwrn, 10 Medi 2022 yn Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn am 2:00 y prynhawn gan Dr Isoline Grenaulgh a Dr Dorothy Gee Williams o deulu'r diweddar Thomas a Suzannah Gee.

Mae cyflwyno medalau fel hyn yn ffordd anrhydeddus i ddiolch i athrawon Ysgol Sul dosbarthiadau plant ac ieuencid am oes o wasanaeth, ac i gydnabod ffyddlondeb aelodau dosbarth yr oedolion yn ogystal. Tybed oes na rywrai yn eich Ysgolion Sul chi sy'n disgyn i'r categori hyn? Os oes, yna ewch ati i enwebu!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22 Mai 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Tybed ydych chi wedi clywed y gôg eleni? Ers inni symud tŷ'n ddiweddar, un peth sydd wedi fy llonni yw sylwi ar gân adar o bob math, gan gynnwys y gwcw. Ac mae hynny wedi gwneud i mi gwestiynu ai fi sydd wedi nesáu at yr adar trwy fynd allan o'r pentref, neu oes yna lai o sŵn cefndirol sy'n gwneud yr adar yn haws i'w clywed?

Wrth gofio'r cyfnod clo cyntaf yn 2020, nododd llawer ohonom mor hyfryd oedd cael ail-ddarganfod ein hardal leol, ac mor braf oedd mwynhau byd natur o'n cwmpas. Wrth gwrs, nid byd natur oedd wedi newid – ni oedd wedi newid gan fod patrymau cyfarwydd ein prysurdeb wedi stopio! Golygodd hyn ein bod yn sylwi o'r newydd ar bethau oedd wedi bod o'n cwmpas erioed! Dwi'n siŵr fod hyn yn wers ysbrydol bwysig i ni hefyd – yr angen i ni fod yn wylidwrs nad yw patrymau'n bywydau arferol yn cau ein llygaid a'n clustiau i'r hyn sy'n werthfawr ac er ein lles. Mae gan bawb ohonom ddyletswyddau neu amgylchiadau sy'n siapio'r hyn yr ydym yn ei wneud neu'r hyn nad ydym yn ei wneud, ond ni fyddai'n ddrwg o beth i ni ystyried, oes yna bethau sy'n cael eu gwasgu allan o'n bywydau yn anfwriadol?

Cofiw'n fod Mab Duw yn ystod ei weinidogaeth ddaearol wedi dysgu, teithio, a chyflawni nifer helaeth o weithredoedd nerthol. Serch hynny, mae mwy nag un adroddiad am Iesu'n encilio oddi wrth y tyrfaoedd a'i ddisgyblion er mwyn gweddïo a bod gyda'i Dad nefol (e.e. Marc 6:46, Luc 6:12). Os oedd oedi'r gweithgaredd arferol er mwyn gweddïo a chael cymundeb â Duw yn bwysig i Iesu, siawns na allwn ninnau hefyd weld bod angen iddo fod yn flaenoriaeth yn ein bywydau?

I ddod yn ôl at y gôg, gallai rhywun ddadlau nad diffyg gwranddo yw'r broblem, ond bod yr aderyn arbennig hwn wedi prinhau'n sylweddol dros y blynyddoedd. Efallai fod hynny'n wir am fyd natur, ond ni ddylem ddefnyddio'r un dadl am ein hymwneud â'r Arglwydd. Nid yw'n Duw trugarog a graslon yn lleihau ei ras a'i gariad tuag at Ei bobl pan maent yn mynd trwy gyfnodau anodd, a tydi'r Arglwydd ychwaith ddim yn cuddio oddi wrthym gan roi posau dyrys i ni er mwyn dod i'w adnabod o bell.

Wrth i Iesu ddod i'r byd gan fyw, marw, ac atgyfodi er mwyn achub Ei bobl, daeth Duw yn agos atom. A thrwy ffydd yng Nghrist, gallwn ninnau ddod ato Ef a phrofi bywyd tragwyddol fydd yn y diwedd yn golygu cael 'adnabod fel y cefais innau fy adnabod.' (1 Corinthiaid 13:12)



Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd un ai yn dioddef hefo'r feirws neu sydd ag unrhyw un o'r symptomau.

Dydd Sul, Mai 22^{ain}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac yng **Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac yn **Groes** am 11:00 o dan arweiniad Mr Gruffydd Rhys Davies.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 ac yn **Llanefydd** am 10:30.
- **Oedfa Gymun yn Saron** am 10:00 ac **Oedfa yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras (07778 511672).

Dydd Llun, Mai 23^{ain} – Dydd Iau, Mai 26^{ain}

- **Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu** yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ.

Nos Lun, Mai 23^{ain} a Phnawn Gwener, Mai 27^{ain}

- **'Y Salmau'** – Y trydydd sesiwn mewn cyfres o chwech astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwirydd EBC.

Dydd Sul, Mai 29^{ain}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac yn **Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa yn Llanefydd** am 10:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard.
- **Oedfa Eisteddfod yr Urdd – 'Lleisiau'r Ifanc' yng Nghapel Mawr, Dinbych.** Drysau'n agor am 9:00 a'r oedfa'n dechrau am 10:00. Amser i oedi am orig yng nghwmni rhai o ieuentid dalgylch yr Eisteddfod. Bydd yn gyfle, drwy'r lleisiau amrywiol, i glywed eu pryderon, eu gobeithion, a'r materion sy'n lliwio eu bywydau. Bydd casgliad tuag at elusen leol ar ddiwedd y gwasanaeth.
- **'Gwreiddiau' arbennig i groesawu'r Eisteddfod** yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych yng nghwmni Emaus, y Bala ac eraill. Amser i'w gadarnhau – cysylltwch â Rhodri am fwy o fanylion.

Dydd Sul, Mehefin 5^{ed}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac yn **Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch Gwilym Tudur. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac yng **Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras (07778 511672).

I ddod

- **Paned a Sgwrs (Llansannan)** dydd Mawrth, Mehefin 7fed. Cinio mewn gwesty lleol. [Enwau erbyn Mehefin 3ydd](#), os gwelwch yn dda. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Hafwen (07785 733725) neu Sian (07733 071868). Croeso cynnes i bawb.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (1^{af}), os gwelwch yn dda.